14 Gorffennaf 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol ag adran 135 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd y tîm o Swyddfa Archwilio Cymru a wnaeth gyflawni'r gwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys Ian Hughes a Emma Woodcock, dan gyfarwyddyd Mike Usher.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys

Yn ein hadolygiad, archwiliwyd y digwyddiadau a arweiniodd at roi busnes newydd o'r enw Kancoat Ltd, a dderbyniodd becyn o gymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn nwylo gweinyddwyr. Yng nghyd-destun ymagwedd Llywodraeth Cymru at gefnogi busnesau, ystyriwyd y pecyn ariannu, a'r modd yr aeth Llywodraeth Cymru ati i reoli risgiau cysylltiedig.


| | | |
|---|---|---|
| | Yr hyn a drafodir yn yr adolygiad hwn | 6 |
| | Y canfyddiadau allweddol | 7 |
| 1 | Sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r sector busnes 'Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch' | 8 |
| 2 | Kancoat – busnes a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru | 14 |
| | Llinell araenu coiliau metel Waunarlwydd | 15 |
| | Sefydlu Kancoat, perchnogaeth y cwmni a'i gynllun busnes | 17 |
| 3 | Pecyn cymorth Kancoat oddi wrth Lywodraeth Cymru rhwng Awst 2013 a Chwefror 2014 | 19 |
| | Sicrhaodd Llywodraeth Cymru brydles gydag Alcoa | 22 |
| | Yr is-brydles rhwng Llywodraeth Cymru a Kancoat | 23 |
| | Bwriad gwreiddiol Kancoat oedd gwneud cais am £3 miliwn o gymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru | 25 |
| | Gwrthodwyd cais ffurfiol Kancoat am £1.8 miliwn o Gyllid Buses Ad-daladwy | 26 |
| | Cymeradwywyd cais diwygiedig Kancoat am £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy | 26 |
| | Yn ddiweddarach, cynyddodd Llywodraeth Cymru y Cyllid Busnes Ad-daladwy a gymeradwywyd i £778,000 | 28 |

Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyciad masnachol o £0.8 miliwn 29

Darparodd Llywodraeth Cymru fenthyciad pellach i Kancoat er mwyn cynorthwyo’r cwmni i oresgyn anawsterau gweithredu nas rhagwelwyd 34

Er gwaethaf y cymorth ariannol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, aeth Kancoat i ddwylo gweinyddwyr yn ystod Medi 2014 35

Mae Llywodraeth Cymru’n wynebu colled anadferadwy bosibl o £1.5 miliwn, yn sgil rhoi cymorth ariannol i Kancoat, ac roedd y gost wirioneddol ‘fesul swydd a grëwyd’ bron dair gwaith yn uwch nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol 36

Gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl rhoi cymorth ariannol i Kancoat 39

Atodiadau 41

Atodiad 1 - Ein hymagwedd a’n dulliau archwilio 42

Atodiad 2 - Llinell amser o’r prif ddigwyddiadau 43

# Yr hyn a drafodir yn yr adolygiad hwn

1 Cwmni cyfyngedig oedd Kancoat Ltd (Kancoat), a sefydlwyd ar ddechrau 2012 i ymgymryd â gweithredu llinell gynhyrchu araenu coiliau metel ar safle Alcoa yn ystâd Waunarlwydd yn Abertawe. Roedd y llinell yn prosesu dur a oedd wedi'i lacro ymlaen llaw a stribedi tunplat er mwyn gweithgynhyrchu cydrannau caniau. Mae'r cydrannau hyn, a elwir yn stoc caniau, yn cynnwys cylchoedd caniau, capiau aerosol a gwaelodion caniau. Ar y pryd, nid oedd unrhyw gwmnïau eraill yn y DU yn cynhyrchu ar raddfa fawr stribedi a lacrwyd ymlaen llaw.

2 Er i Lywodraeth Cymru ddarparu pecyn ariannu gwerth cyfanswm o £3.4 miliwn i Kancoat ar gyfer caffael a gweithredu llinell araenu coiliau, methodd y fenter ac aeth y cwmni i ddwylo gweinyddwyr ym Medi 2014.

3 Yn fuan wedi hynny, daeth gohebiaeth i law Archwilydd Cyffredinol Cymru yn codi cwestiynau ynghylch:

a gwerth am arian y pecyn cymorth ariannol a roddwyd ar gael i Kancoat gan Lywodraeth Cymru; a

b thryloywder perthynas Kancoat â chwmni arall o'r enw Coilcolor Ltd (Coilcolor).

4 Ar ein cais, bu Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru yn ystyried y materion hyn i ddechrau, yn rhan o'i adolygiad o'r graddau yr oedd Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio â'i pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun wrth gefnogi Kancoat. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'i pholisïau a'i gweithdrefnau, i'r graddau yr oeddent yn berthnasol, daeth y Gwasanaeth i'r casgliad bod angen iddi gyflwyno gweithdrefnau ychwanegol i ymdrin â'r benthyciadau masnachol a thrafodion eiddo a ddefnyddiwyd ym mhecyn cymorth Kancoat.

5 Nid oedd rheoli risg yn rhan benodol o faes yr adolygiad gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ond nodwyd yn ei bapurau gwaith rai materion yn gysylltiedig â rheolaeth risg gan noddwyr y prosiect, o fewn Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru.[1] Rydym hefyd yn ymwybodol o achosion eraill lle'r aeth cwmnïau, a oedd yn derbyn cymorth ariannol oddi wrth Lywodraeth Cymru, i ddwylo gweinyddwyr. Ar sail yr holl ffactorau hyn, cynhaliodd Archwilydd Cyffredinol adolygiad archwilio allanol o achos Kancoat.

6 Mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad ffeithiol o'r prif faterion sy'n gysylltiedig â phecyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i Kancoat ac yn eu cyflwyno yng nghyd-destun ehangach ymagwedd Llywodraeth Cymru at gefnogi busnesau yng Nghymru.

7 Nodir yn Atodiad 1 ein hymagwedd a'n dulliau archwilio.

1 Ailstrwythurwyd Llywodraeth Cymru ym ystod Chwefror 2016, ac un o'r grwpiau a sefydlwyd oedd Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

## Y canfyddiadau allweddol

8 Yn rhan o'i rôl ehangach yn hyrwyddo datblygiad economaidd Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n darparu amrywiaeth o gymorth ariannol, a mathau eraill o gymorth, i fusnesau mewn saith o sectorau diwydiannol allweddol, gan gynnwys y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch (paragraffau 1.1 i 1.14).

9 Darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol gwerth £3.4 miliwn i Kancoat, cwmni a oedd yn gweithredu yn y sector hwnnw, i brynu a gweithredu llinell gynhyrchu araenu coiliau metel. Yr hyn a fwriadwyd drwy'r pecyn cymorth hwn oedd galluogi Kancoat i sicrhau is-brydles ar ei eiddo busnes, prynu'r llinell araenu, ailgychwyn gweithgynhyrchu a goroesi drwy gyfnod masnachu anodd (paragraffau 2.1 i 3.3).

10 Cynyddodd maint y pecyn cymorth gan Lywodraeth Cymru rhwng Awst 2013 a Chwefror 2014, ac yn y pen draw roedd yn cynnwys:

a cymorth eiddo: ymrwymiad i brydles gwerth £1.4 miliwn (i'w wrthbwyso gan lefel gyfwerth o incwm o'r is-brydles – paragraffau 3.4 i 3.11);

b £0.7 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy[2] a gynigiwyd ar sail anad-daladwy (paragraffau 3.12 i 3.34); a

c benthyciadau masnachol gwerth £1.3 miliwn (paragraffau 3.35 i 3.50).

11 O ganlyniad i Kancoat fynd i ddwylo derbynwyr ym Medi 2014, roed y 'gost fesul swydd a grëwyd/diogelwyd' bron dair gwaith yn uwch na'r hyn a ddisgwylid yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun ei chymorth i'r prosiect drwy gyfrwng Cyllid Busnes Ad-daladwy (paragraffau 3.51 i 3.56).

12 Ar ddiwedd Mehefin 2016, mae dyled Kancoat i Lywodraeth Cymru bron yn £2.6 miliwn o ran ad-dalu'r cymorth ariannol a dderbyniodd y cwmni (Arddangosyn 16). Ar y sail y bydd y derbyniadau disgwyliedig o werthu'r llinell araenu yn agos at ben isaf y prisiad marchnad a oedd ar gael pan brynwyd y llinell, yr amcangyfrif cyfredol o uchafswm posibl y golled anadferadwy i'r pwrs cyhoeddus yw £1.5 miliwn (paragraffau 3.57 i 3.59).

2 Gweler Arddangosyn 3 ar gyfer diffiniad o Cyllid busnes Ad-daladwy.

# Rhan 1

## Sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r sector busnes 'Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch'

1.1 Mae Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol o fewn Llywodraeth Cymru yn gweithredu wyth Tîm Sector sy'n darparu cymorth ariannol ac anariannol i fusnesau:

a Ynni a'r Amgylchedd

b Adeiladu

c Y Diwydiannau Creadigol

ch Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

d Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol


dd Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu

e Gwyddorau Bywyd

f Twristiaeth

1.2 Rhwng 2012-13 a 2014-15, mae Llywodraeth Cymru'n adrodd ei bod wedi darparu oddeutu £266 miliwn o gyllid i fusnesau sy'n gweithredu yn yr wyth sector hyn, gan greu neu ddiogelu dros 90,000 o swyddi, fel y dangosir yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: Swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd a gwerth y cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru




Sylwer
Diffiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer swyddi 'a ddiogelwyd' yw: Nifer y swyddi parhaol amser llawn gyda thâl cyfwerth mewn busnes, y byddid wedi eu colli, ac sydd felly wedi'u diogelu drwy gyfrwng cymorth Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, mae rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd (fel rhan o amodau'r cymorth) yn mynnu bod unrhyw swyddi a grëir neu a ddiogelir yn parhau am bum mlynedd yn achos cwmnïau mawr, a thair blynedd yn achos BBaChau.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

1.3 Mae proses wedi'i sefydlu ar gyfer gwerthuso a chymeradwyo ceisiadau am gymorth ariannol. Bydd Panel Buddsoddi'n cyfarfod bob wythnos er mwyn ystyried ceisiadau am gymorth a gyflwynir gan bob un o'r Timau Sector. Dangosir y papurau achos y mae'n rhaid eu cwblhau i gefnogi pob cais a gyflwynir gerbron y Panel yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Papurau achos angenrheidiol er mwyn i'r Panel Buddsoddi ddod i benderfyniad

| Manylion dogfennau |
|---|
| Cyflwynir yr holl ddogfennau i gefnogi'r cais, a llofnodir y cais gan yr ymgeisydd. |
| Arfarniad diwydrwydd dyladwy ariannol. |
| Bydd y Tîm Cynghori Ynghylch Buddsoddi yn cyflawni rôl sicrwydd ansawdd mewn achosion yn y sectorau ac eithrio'r sector twristiaeth, sy'n ymgymryd â'i sicrwydd ansawdd ei hunan. |
| Dogfen arfarnu wedi'i chwblhau'n llawn. |
| Argymhelliad Pennaeth y Sector i gefnogi'r cais. |
| Cadarnhad gan yr Uwch Reolwr Cyllid a Pherfformiad bod y gyllideb wedi'i chymeradwyo. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

1.4 Mae'r Panel Buddsoddi'n cynnwys o leiaf un aelod o Dîm Arwain Corfforaethol y Grŵp, ynghyd ag uwch aelodau o'r Tîm Rheoli. Aelod o'r Tîm Cynghori Ynghylch Buddsoddi yn cadeirio'r panel ac yn cyflawni'r rôl ysgrifenyddol. Rhaid i bedwar aelod o leiaf fod yn bresennol er mwyn sicrhau cworwm ar y panel, ac mae'r aelod sy'n bresennol o'r sector sy'n noddi'r cais wedi'i wahardd rhag pleidleisio ar y canlyniad. Mae'r Panel Buddsoddi yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Gweinidog drwy gyfrwng 'Ffeil Cyngor y Gweinidog'.

1.5 Mae'r ddogfen arfarnu a gyflwynir i'r Panel Buddsoddi yn sicrhau bod y prosiect yn bodloni canllawiau 'Gwerth am Arian' Llywodraeth Cymru ei hunan. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar gyfrifiad o'r gost fesul swydd, sef £24,638 (seiliedig ar 70 y cant o'r cyflogau cyfartalog o £27,375 plws codiad o 20 y cant ar gyfer swyddi a leolir mewn ardal haen 1).

1.6 Ceir elfen o risg yn gysylltiedig â phob penderfyniad i fuddsoddi, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos cwmnïau newydd sy'n brin o gyfalaf gweithio a heb unrhyw hanes o lwyddo yn y gorffennol. Yng Nghymru, y gyfradd oroesi am bum mlynedd ar gyfer busnesau newydd rhwng 2008 a 2013 oedd 42.5 y cant. Mae hyn fymryn yn uwch na'r gyfradd oroesi ledled y DU am yr un cyfnod, sef 41.3.

1.7 Gall archwaeth Llywodraeth Cymru am risg fod yn fawr wrth geisio cefnogi a hyrwyddo economi Cymru. Bydd swyddogion yn cyfeirio at eu rôl fel y 'rhoddwr benthyg pan fetha popeth arall', sy'n camu i'r bwlch pan fo'r farchnad gyllid masnachol yn amharod i wneud hynny am gyfradd fenthyca resymol. Mewn llawer o achosion, bydd ymgeiswyr sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol eisoes wedi ceisio ac wedi methu sicrhau cefnogaeth ddigonol o ffynonellau cyllid yn y sector preifat.

1.8 Yn ystod Tachwedd 2011, wrth ymateb i'r dirywiad economaidd, cyhoeddodd y Gweinidog rownd gyntaf Cronfa Twf Economaidd Cymru, sef pecyn ysgogi economaidd gyda'r nod o gynorthwyo busnesau a allai gynnig prosiectau parod ar gyfer buddsoddi ynddynt. Wrth i'r economi wella, cynyddodd nifer y ceisiadau am Gyllid Busnes Ad-daladwy.

1.9 Drwy'r Cyllid Busnes Ad-daladwy, cynigir cymorth ariannol 'disgresiynol' i fusnesau cymwys. Nod hyn yw helpu i ariannu prosiectau buddsoddi cyfalaf a chreu swyddi ledled Cymru. Dyma brif amcanion y math hwn o gymorth ariannol:

a annog buddsoddiad newydd sy'n cynyddu cystadleurwydd a chynhyrchiant, yn enwedig yn yr Ardaloedd a Gynorthwyir;

b helpu i greu ac/neu ddiogelu swyddi â sgiliau gwell; a

c datblygu sectorau allweddol yng Nghymru.

1.10 O'r £266 miliwn o gymorth ariannol a ddarparwyd i'r wyth sector dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2012-13 a 2014-15, Cyllid Busnes Ad-daladwy oedd £166 miliwn (62 y cant) ohono. Fodd bynnag, darparwyd oddeutu £154 miliwn o'r Cyllid Busnes Ad-daladwy hwn (93 y cant) i gwmnïau (gan gynnwys Kancoat) ar ffurf cyllid nad oed yn rhaid ei ad-dalu.

1.11 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y gellir pennu bod Cyllid Busnes Ad-daladwy yn gyllid nad oes angen ei ad-dalu yn y naill neu'r llall o'r amgylchiadau canlynol:

a Prosiect symudol, a fyddai'n cynnwys mewnfuddsoddi. Ni fydd cyllid ar gyfer prosiectau symudol yn dod yn ad-daladwy ac eithrio pan na chyrhaeddir targedau, er enghraifft o ran nifer ac ansawdd y swyddi, hirhoedledd y prosiect, ayb.

b Gyda chymeradwyaeth y Gweinidog ac mewn 'amgylchiadau eithriadol', gellir cynnig y cynllun ar sail trefniant anad-daladwy. Cafwyd enghraifft o hyn wrth gyflenwi Cronfa Twf Economaidd Cymru, pan gymeradwywyd ystyried ceisiadau oddi tani am Gyllid Busnes Ad-daladwy ar sail anad-daladwy.

1.12 Yn ystod yr un cyfnod, rhoddodd Llywodraeth Cymru £38.5 miliwn mewn benthyciadau masnachol i 17 o fusnesau, gan gynnwys Kancoat.

1.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi adennill cyllid oddi wrth 54 o'r 1,110 o gwmnïau a dderbyniodd gymorth ariannol (4.9 y cant) yn y pum mlynedd diwethaf. Y rhesymau dros adennill cyllid grant yn y 54 o achosion hyn yw: diddymu'r cwmni (35 o achosion); mynd i ddwylo gweinyddwyr (14 o achosion); a methiant i gyflawni'n unol â'r gofyn (pum achos). Yn y pum achos, ni chadwyd y swyddi newydd a grëwyd gan y cwmnïau dan sylw am y tair i bum mlynedd angenrheidiol, fel y nodwyd yn amodau cyllid Llywodraeth Cymru. Yn nhermau arian, y swm a dargedwyd i'w adennill o'r 54 o achosion hyn oedd £11.2 miliwn o'r £337.3 miliwn a ddyfarnwyd (3.3 y cant).

1.14 Cyflwynodd Kancoat ei gais i Dîm y Sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, ac felly mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y pecynnau ariannol sydd ar gael i gwmnïau sy'n gweithredu o fewn y sector hwnnw, fel y dangosir yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Pecynnau ariannol sydd ar gael i'r sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

| Math | Manylion |
|---|---|
| Cyllid Busnes Ad-daladwy | Mae 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2010, yn pennu'r ymagwedd ar gyfer cymorth disgresiynol i fusnesau. Un o'r prif ffynonellau cyllid yw Cyllid Busnes Ad-daladwy, sy'n cynnig cymorth ariannol i fusnesau cymwys. Ei nod yw helpu i gyllido prosiectau buddsoddi cyfalaf a chreu swyddi ym mhob rhan o Gymru.<br>Darperir y Cyllid Busnes Ad-daladwy ar ffurf grant, a gellir negodi lefel y cymorth, ond rhaid iddo bob amser fod islaw'r nenfydau Cymorth Gwladwriaethol ac yn ddim mwy na'r hyn sydd ei angen i sicrhau bod y prosiect yn mynd yn ei flaen. Mae pob cymorth cyllidol a roddir yn 100 y cant ad-daladwy onid yw'r prosiect yn brosiect symudol, h.y. yn brosiect y gellid ei gyflawni y tu allan i Gymru, neu onid oes amgylchiadau eithriadol sy'n cyfiawnhau ei ystyried ar sail anad-daladwy.<br>Er gwaethaf yr uchod, mae pob cyllid a gynigir o dan y cynllun Cyllid Busnes Ad-daladwy yn 100 ad-daladwy os na fodlonir telerau ac amodau'r cymorth.<br>O safbwynt Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd, mae Cyllid Busnes Ad-daladwy yn ddarostyngedig i'r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (RhEBC) a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2014.<br>Yn benodol: darperir Cyllid Busnes Ad-daladwy ar gyfer prosiectau buddsoddi cyfalaf trwy Gynllun Cymorth Buddsoddi Cyfalaf a Chynllun Cymorth Cyflogaeth Llywodraeth Cymru (Cyfeirnod Cymorth Gwladwriaethol: SA.39086). |
| Benthyciad masnachol | Benthyciadau a roddir ar gael ar delerau masnachol ac sy'n cydymffurfio â darpariaethau adrannau 60(1) a 70 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adrannau 1(2)(a), 1(3)(b) ac 1(7)(d) o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. |
| Cymorth o ran eiddo – Prif brydles | Nid yw'n gymorth ariannol, ond yn hytrach yn ffordd o alluogi'r cwmni i sicrhau meddiant o fangre a oedd yn hanfodol ar gyfer ei fusnes, ac a gyflenwyd ar delerau masnachol. |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

# Rhan 2

## Kancoat – busnes a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru

2.1 Sefydlwyd Kancoat i gymryd drosodd gweithrediad llinell gynhyrchu araenu coiliau metel ar safle Alcoa ar ystâd Waunarlwydd yn Abertawe. Roedd y llinell gynhyrchu wedi bod yn sefydlog ers blynyddoedd, a rhoddir disgrifiad cryno isod o'i hanes o ran perchnogaeth, a manylion pellach am y prif ddigwyddiadau yn Atodiad 2.

## Llinell araenu coiliau metel Waunarlwydd

2.2 Alcoa Manufacturing (GB) Ltd (Alcoa), sef perchnogion safle Waunarlwydd, oedd defnyddwyr gwreiddiol y llinell araenu coiliau. Gyda chymorth grant o £350,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru, sicrhaodd cwmni o'r enw Falcon Steel Ltd brydles gan Alcoa ar gyfer defnyddio rhan o'r safle yn 2009. Fodd bynnag, ni lwyddodd Falcon Steel Ltd i wneud defnydd masnachol llwyddiannus o'r llinell, a throsglwyddwyd y brydles a pherchnogaeth o'r llinell i Falcon Holdings UK Ltd yn 2010. Aeth y ddau gwmni i ddwylo derbynwyr yn 2011.

2.3 Yn Rhagfyr 2010, sefydlodd Coilcolor Ltd (Coilcolor), sef cwmni araenu coiliau sefydledig yng Nghasnewydd, gwmni newydd o'r enw Coilcolor West Ltd, a fyddai'n caffael gan weinyddwyr Falcon Holdings UK Ltd y brydles gydag Alcoa yn ogystal â pherchnogaeth y llinell araenu. Roedd Coilcolor yn bwriadu adleoli hefyd yn 2012, i'r safle Waunarlwydd fel is-denant, gan y byddai datblygiad tai ar dir o amgylch safle'r cwmni yng Nghasnewydd yn ei gwneud yn anodd iddo barhau ei weithrediadau a thyfu yno yn y dyfodol.

2.4 Dangosir llun o'r llinell araenu yn Arddangosyn 4.

Arddangosyn 4: Y llinell araenu coiliau ar safle diwydiannol Waunarlwydd, Abertawe




Llun: Kancoat Ltd

2.5 Un o rag-amodau'r brydles safle yr ymunodd Alcoa ynddi gyda Falcon Steel a Coilcolor (West) Ltd ar gyfer y safle, oedd y byddai gwaharddiad sefydlog ar brosesu alwminiwm ar y safle tan 1 Ionawr 2018 yn parhau mewn grym. Golygai hyn mai dur neu swbstradau eraill megis tunplat yn unig y gellid eu prosesu gyda'r peirianwaith presennol ar y llinell cyn y dyddiad hwnnw. Bwriad Coilcolor, pe gallai gytuno ar gydag Alcoa ar ddyddiad cynharach ar gyfer prosesu alwminiwm, oedd gweithredu'r llinell a datblygu'r marchnadoedd arbenigol yr oedd y llinell yn addas ar eu cyfer. Strategaeth busnes Coilcolor, felly, oedd osgoi'r bygythiad y galli cystadleuydd arall brynu'r safle a gweithredu'r cyfleuster.

2.6 Parhaodd Coilcolor (West) Ltd i negodi gydag Alcoa ynghylch telerau ei brydles, ond ni lwyddodd i gael Alcoa i ddileu'r cyfyngiad ar brosesu alwminiwm ar y safle cyn 2018. Gan hynny, ym Mehefin 2011, cysylltodd Coilcolor â swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ofyn am gymorth i sicrhau cydsyniad Alcoa i ddileu'r cyfyngiad.

2.7 Yn Rhagfyr 2011, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at Fwrdd Alcoa yn gofyn i'r cwmni barhau i negodi gyda Coilcolor (West) Ltd. Wrth wneud hynny, eglurodd y Gweinidog nad oedd hi'n dymuno i Lywodraeth Cymru ymyrryd mewn unrhyw drafodaethau negodi masnachol rhwng Alcoa a Coilcolor (West) Ltd. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd hefyd i Alcoa y byddai Llywodraeth Cymru, hyd y bo modd, yn parhau i gefnogi cynlluniau Coilcolor ar gyfer ei weithrediadau yn Abertawe.

2.8 Fodd bynnag, erbyn Gorffennaf 2012, roedd dyled gronedig Coilcolor (West) Ltd i Alcoa, o ran taliadau dyladwy o dan ei brydles, yn £200,000 plws llog. Roedd y teitl i'r llinell araenu wedi ei drosglwyddo i adran gyllid HSBC o dan arwystl a oedd yn bodoli eisoes. Gwnaed y penderfyniad dilynol i ddiddymu Coilcolor (West) Ltd er wyn caniatáu i gwmni newydd ymgymryd â chynhyrchu ar y llinell a chyrraedd marchnadoedd ehangach nag y gallai'r brand Coilcolor ei hwyluso.

## Sefydlu Kancoat, perchnogaeth y cwmni a'i gynllun busnes

2.9 Er gwaethaf y rhwystrau a amlinellwyd uchod, roedd perchnogion Coilcolor ei hun yn awyddus i gynnal cynhyrchiant ar y llinell, a buont yn ceisio denu buddsoddwyr eraill i ariannu'r cwmni, neu gwmni newydd sbon, er mwyn parhau â'r gwaith cynhyrchu ar sail model busnes gwahanol.

2.10 Gan hynny, sefydlodd Coilcolor, ynghyd â dau fuddsoddwr arall (Building Products Offshore Fze a BLF Investments Limited), gwmni newydd o'r enw Kancoat Ltd i fwrw ymlaen â'r busnes. Roedd gan Reolwr Gyfarwyddwr Kancoat 20 mlynedd o brofiad perthnasol o fewn y diwydiant, a chefnogid y cwmni gan ymgynghorydd a chynghorydd hynod brofiadol arall hefyd. Roedd gweithlu hefyd wrth law, a oedd â phrofiad o weithredu'r llinell.

2.11 Cafodd Kancoat ei ymgorffori fel cwmni cyfyngedig preifat ar 6 Mawrth 2012, gyda dyraniad cyfalaf cyfrannau cychwynnol o un cyfranddaliad cyffredin wedi'i ddyrannu i Coilcolor. Roedd ei unig Gyfarwyddwr yn Gyfarwyddwr Coilcolor rhwng 1 Mai 2011 a 31 Mawrth 2012. Er bod y ddwy ddeiliadaeth wedi gorgyffwrdd am gyfnod byr, bwriad cyfarwyddwr Kancoat drwy gydol yr amser oedd ymddiswyddo o Coilcolor cyn gynted ag y byddai Kancoat wedi ymgorffori yn ffurfiol.

2.12 Ar 15 Awst 2013, mabwysiadodd Kancoat 250,000 o gyfranddaliadau braint[3] a 250,100 o gyfranddaliadau cyffredin[4] fel ei gyfalaf cyfrannau, a rannwyd yn gyfartal rhwng Building Products Offshore Fze a BLF Investments Limited. Fodd bynnag, er mwyn arddangos annibyniaeth Kancoat ar berchennog y llinell araenu ar y pryd, ni chymerodd Coilcolor ei hunan gyfranddaliad ecwiti yn y cwmni, fel yr oedd wedi bwriadu yn wreiddiol.

2.13 Cynllun busnes Kancoat oedd prynu'r llinell araenu coiliau oddi wrth Coilcolor (a fyddai hefyd wedi golygu setlo'r arwystl ar y llinell gydag HSBC Asset Finance) a chymryd drosodd y brydles gydag Alcoa. Disgwyliwyd mai Coilcolor, a oedd yn gweithredu yng Nghasnewydd ar y pryd, gyda 50 o gyflogeion a throsiant o fwy na £12.5 miliwn, fyddai prif gwsmer Kancoat yn ystod ei flwyddyn gyntaf o fasnachu (fel y nodir yng nghynllun busnes Kancoat). Byddai Coilcolor a Kancoat yn gweithredu'n gwbl annibynnol ar y naill a'r llall, heb unrhyw gyfarwyddwyr gweithredol yn gyffredin i'r ddau gwmni.

2.14 Cynllun cynyddrannol oedd cynllun busnes Kancoat. I ddechrau, roedd yn disgwyl cyflenwi i Coilcolor fel ei brif gwsmer, ond yn gobeithio ehangu ei sylfaen o gwsmeriaid a denu buddsoddwyr newydd wrth i'r hyder dyfu yn ei allu i weithredu'r llinell yn llwyddiannus. Dywedodd cyfarwyddwyr Coilcolor wrthym yn ddiweddarach nad ydynt yn cydnabod y disgwyliad mai Coilcolor fyddai prif gwsmer Kancoat yn y flwyddyn gyntaf o fasnachu. Roedd Kancoat, fel y nodir yn ei gynllun busnes, wedi disgwyl y byddai ei gyfnod mwyaf enillfawr y fenter yn dechrau yn 2018, pan godid y cyfyngiad ar brosesu alwminiwm a osodwyd gan Alcoa.

3 Cyfranddaliadau braint - Cyfranddaliad sy'n rhoi'r hawl i'r deiliad gael difidend sefydlog, y rhoddir blaenoriaeth i'r taliad ohono, cyn talu difidend cyfranddaliadau cyffredin.

4 Cyfranddaliadau cyffredin – Cyfranddaliad sy'n rhoi hawl i'r deiliad gael difidendau y gellir amrywio eu swm, neu hyd yn oed eu hepgor, yn dibynnu ar elw'r cwmni.

2.15 Roedd Coilcolor wedi derbyn prisiad annibynnol o £5 miliwn fel gwerth y llinell araenu ar y farchnad 'yn ei lle presennol' ym Mawrth 2011, ac £1.25 miliwn ar sail ei gwaredu fesul tamaid. Bwriad Kancoat oedd prynu'r llinell oddi wrth Coilcolor am bris cytunedig o £2.5 miliwn, addasu'r adeilad ac ailgychwyn cynhyrchu am gyfanswm cost a amcangyfrifid fel £7.1 miliwn. Roedd y ffigur hwn yn cynnwys cost y brydles gydag Alcoa, wedi'i chyfalafu dros gyfnod o 10 mlynedd.

2.16 Gan mai cwmni newydd amhrofedig oedd Kancoat, a chanddo gysylltiadau agos â Coilcolor a Coilcolor (West) Ltd, nid oedd Alcoa yn barod i ymrwymo i brydles â Kancoat yn uniongyrchol. Fodd bynnag, nododd Alcoa ei fod yn barod i brydlesu'r safle i Lywodraeth Cymru, fel y gallai Llywodraeth Cymru, yn ei thro, osod y safle ar is-brydles i Kancoat.

2.17 Yng ngoleuni'r ohebiaeth gynharach rhwng y Gweinidog ac Alcoa a Coilcolor, bu swyddogion yn ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gyflawni dau beth:

a cefnogi dymuniad Kancoat i ddefnyddio'r safle sy'n eiddo i Alcoa; a

b darparu cyllid busnes ar gyfer pryniant Kancoat ac ar gyfer gweithrediad dilynol y llinell araenu coiliau oedd yn eiddo i Coilcolor.

2.18 Honnai Kancoat y byddai cymorth Llywodraeth Cymru yn ei helpu i ailddechrau gweithredu llinell gynhyrchu dechnolegol flaengar, gan greu 32 o swyddi dros dair blynedd a diogelu un swydd arall, mewn ardal a oedd yn bwysig o safbwynt yr economi.

2.19 Er bod cynllun busnes Kancoat, yn ei hanfod, yn gynllun risg uchel o ystyried natur cwmnïau newydd a hanes blaenorol y llinell, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r cynllun. Tybient y byddai'n werth derbyn y risg, ar yr amod y ceid sicrwydd priodol dros y llinell araenu coiliau, a oedd yn ased sefydlog gwerthfawr y gellid ei ailwerthu. Yn ychwanegol, aseswyd bod rhagolygon y cwmni ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir yn addawol, ar yr amod y gallai Kancoat sicrhau buddsoddwyr newydd ac ehangu ei sylfaen o gwsmeriaid yn y cyfnod cyn y caniateir iddo brosesu alwminiwm, sef o 2018 ymlaen.


2.20 Roedd cynllun busnes Kancoat yn gyson â chyfleoedd ac amodau'r farchnad ar y pryd, ac yn strategol gadarn, ar yr amod y gellid ateb yr heriau penodol a oedd yn gysylltiedig â'r blynyddoedd cyntaf o fasnachu. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym hefyd eu bod o'r farn bod galluoedd a phrofiad rheoli'r cwmni yn dda.

# Rhan 3

## Pecyn cymorth Kancoat oddi wrth Lywodraeth Cymru rhwng Awst 2013 a Chwefror 2014

3.1 Rhwng Awst 2013 a Chwefror 2014, rhoddodd Llywodraeth Cymru becyn cymorth gwerth £3.4 miliwn i Kancoat, a oedd yn cynnwys tair prif elfen, fel y nodir yn Arddangosyn 5.

Arddangosyn 5: Darparodd Llywodraeth Cymru dri math o gymorth ariannol i Kancoat




Sylwer

Mae'r £1.4 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, hyd at y cymal torri cyntaf yn Awst 2018; mae'n cynnwys cyfnod o wyth mis yn rhydd o rent yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.2 Drwy'r pecyn cymorth hwn, bu modd i Kancoat:


a sicrhau is-brydles ar gyfer ei fangre busnes (gweler paragraffau 3.4 i 3.11);

b prynu ac ailgychwyn gweithgynhyrchu ar y llinell araenu coiliau (paragraffau 3.12 i 3.44); a

c chael benthyciad masnachol i ymdopi â chyfnod o fasnachu anodd (paragraffau 3.45 i 3.50).

3.3 Mae Arddangosyn 6 yn dangos sut a pha bryd y daeth yr elfennau hyn at ei gilydd.

Arddangosyn 6: Amseriad pecyn cymorth Kancoat




Sylwer

Mae'r £1.4 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd, hyd at y cymal torri cyntaf yn Awst 2018; mae'n cynnwys cyfnod o wyth mis yn rhydd o rent yn ystod y flwyddyn gyntaf. Mae'r cytundeb prydles yn darparu hefyd ar gyfer gwaith adfer a gwahanu, a all fod yn angenrheidiol ar yr adeg briodol.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Sicrhaodd Llywodraeth Cymru brydles gydag Alcoa

3.4 Rhoddwyd y dasg o sicrhau'r llety a oedd yn ofynnol ar gyfer Kancoat, drwy negodi prif brydles gydag Alcoa, i Dîm Seilwaith Eiddo Llywodraeth Cymru. Roedd Kancoat yn brosiect a arweinid gan Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, un o'r sectorau allweddol a gefnogid gan Lywodraeth Cymru. Gan hynny roedd y Tîm Sector o'r farn bod darparu cymorth ariannol i'r cwmni a'i gynnig busnes yn cyfrannu at nodau'r Rhaglen Lywodraethu, sef creu twf a swyddi cynaliadwy.

3.5 Ar yr adeg y digwyddodd y negodi, nid oedd gan Lywodraeth Cymru bolisi a gweithdrefn ffurfiol ar gyfer cymeradwyo prydlesau (neu ymyriadau eraill o ran eiddo) ar y cyd â phenderfyniadau buddsoddi eraill pan oedd cwmni yn gofyn am gymorth o ran eiddo yn ogystal â chymorth ariannol, ond mae polisi a gweithdrefn o'r fath bellach wedi eu llunio[5]. Cynhaliwyd y trafodaethau negodi ar yr un pryd ag yr oedd y Panel Buddsoddi yn trafod cymeradwyo cais am Gyllid Busnes Ad-daladwy (paragraffau 3.12 i 3.34), ac yn rhan o'r gymeradwyaeth honno, awgrymwyd na ddylai Llywodraeth Cymru ymuno mewn prydles gydag Alcoa oni fyddai'r brydles honno'n cynnwys cymal ymeithrio ar ôl dwy flynedd, er mwyn helpu i reoli'r ansicrwydd ynghylch llwyddiant Kancoat yn y dyfodol.


3.6 Bu swyddogion Llywodraeth Cymru'n negodi'n uniongyrchol ag Alcoa, gan ofyn i ddechrau am gymal torri dwy-flynedd. Fodd bynnag, bu'r cais hwnnw'n aflwyddiannus. Ar ôl cynnal trafodaethau pellach, sicrhaodd swyddogion 'gymalau torri' naill ai bum neu ddeng mlynedd ar ôl cychwyn y brydles (sef yn 2018 neu 2023, yn eu trefn), ar yr amod na fyddai unrhyw is-brydles yn weithredol bryd hynny. Cychwynnodd y brydles ar gyfer y fangre a oedd yn cynnwys y llinell araenu metel yn Awst 2013, i gyd-ddigwydd â phryniant y llinell araenu gan Kancoat oddi ar Coilcolor, ac yr oedd y brydles i ddod i ben yn Chwefror 2029.

3.7 Cost flynyddol y brydles a gytunwyd rhwng Alcoa a Llywodraeth Cymru yw £297,360, ac mae'n cynnwys rhent, taliadau gwasanaeth, yswiriant, gwaith cynnal a chadw ac ardrethi, fel y dangosir yn Arddangosyn 7.

3.8 Ystyriai'r Tîm Arwain Eiddo mai telerau'r brydles a gytunwyd ag Alcoa oedd y telerau gorau y gallent fod wedi'u sicrhau. Cefnogid y farn hon gan y prisiadau marchnad annibynnol a gynhaliwyd.

5 Bellach, rhaid i bob cynnig ar gyfer sicrhau prydlesi neu atebion eiddo eraill, gan gwmnïau sydd hefyd yn gofyn am fathau eraill o gymorth ariannol, gael ei ystyried gan Banel Argymell Buddsoddi (yng ngoleuni cyngor priodol gan y Tîm Arwain Eiddo), a fydd yn cyflwyno argymhelliad ffurfiol i'r Gweinidog ar ôl ystyried canlyniadau diwydrwydd dyladwy.

Arddangosyn 7: Dadansoddiad o gostau prydles blynyddol Llywodraeth Cymru, sef £297,360




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

## Yr is-brydles rhwng Llywodraeth Cymru a Kancoat

3.9 Cyn gynted ag y cytunodd Llywodraeth Cymru ar y brydles ag Alcoa, gosododd yr eiddo ar is-brydes i Kancoat. I raddau helaeth, mae telerau'r is-brydles hon yn debyg i'r telerau a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru ac Alcoa, ac eithrio nad oedd Kancoat yn cael budd o unrhyw ddarpariaethau i ymeithrio o'r brydles ym mlynyddoedd pump a deg (hy, roedd Kancoat wedi ymrwymo drwy gontract i gyfnod 16-mlynedd llawn y brydles, tan fis Chwefror 2029).

3.10 O dan yr is-brydles roedd yn ofynnol bod Kancoat yn talu i Lywodraeth Cymru gost lawn y brydles (sef £297,360 y flwyddyn). Fodd bynnag, nid yw Kancoat hyd yma wedi talu dim ond cyfanswm o £13,166 i Lywodraeth Cymru, fel y dangosir yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: Taliadau prydles a wnaed gan Kancoat Ltd

| Ad-dalu: | £ |
|---|---|
| Tâl gwasanaeth ar gyfer Awst 2013 | 3,002 |
| Yswiriant a rhent ar gyfer y cyfnod Awst 2013 i Mai 2014 | 10,164 |
| Cyfanswm | 13,166 |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

3.11 Os na all Llywodraeth Cymru ddod o hyd i denant newydd a fydd yn rhentu'r eiddo ar is-brydles, bydd rhaid iddi dalu gweddill costau'r brydles i Alcoa, hyd nes gall weithredu cymal torri'r brydles yn 2018. Bydd cyfanswm y rhwymedigaethau hyn ychydig yn llai nag £1.4 miliwn, fel y dangosir yn Arddangosyn 9.

Arddangosyn 9: Taliadau prydles sy'n ddyledus oddi wrth Kancoat Ltd

| Blwyddyn yn cychwyn | Taliad is-brydles yn ddyledus i Lywodraeth Cymru oddi wrth Kancoat, £ | Taliadau a wnaed gan Kancoat, £ | Balans cronnus o gostau is-brydles heb eu talu, £ |
|---|---|---|---|
| 2013 | 177,360 | 13,166 | 164,194 |
| 2014 | 297,360 | – | 461,544 |
| 2015 | 297,360 | – | 758,914 |
| 2016 | 297,360 | – | 1,056,274 |
| 2017 | 297,360 | – | 1,353,634 |

Sylwer

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, dyfarnwyd bod Kancoat i gael cyfnod o wyth mis yn rhydd o rent, ac mae'r cytundeb prydles hefyd yn darparu ar gyfer unrhyw waith adfer a gwahanu angenrheidiol.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

## Bwriad gwreiddiol Kancoat oedd gwneud cais am £3 miliwn o gymorth oddi wrth Lywodraeth Cymru

3.12 Roedd Coilcolor wedi cynnig gwerthu'r llinell i Kancoat am £2.5 miliwn. Y telerau a gynigiwyd oedd talu £1.5 miliwn ymlaen llaw a balans o £1 miliwn dros ddwy flynedd o dan gytundeb benthyca.

3.13 Canfu Kancoat na allai godi'r £1.5 miliwn o gyllid cyfalaf preifat i brynu'r llinell. Roedd Kancoat yn gwmni newydd, yn bwriadu gweithredu llinell gynhyrchu a oedd wedi methu ar ddau achlysur blaenorol. Roedd Kancoat wedi sicrhau £500,000 o gyfalaf gweithio oddi wrth ei ddau fuddsoddwr preifat, ond nid oedd hynny'n ddigon i wneud mwy na thalu costau gweithredu.

3.14 Yn Ebrill 2013, aeth Kancoat at Cyllid Cymru CCC i drafod ffynonellau cyllid posibl. O ganlyniad i'r trafodaethau rhwng y ddau barti, gwnaed cais am fuddsoddiad o £325,000, a wrthodwyd yn ddiweddarach gan Cyllid Cymru oherwydd y lefel annerbyniol o uchel o risg a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect newydd hwn, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf o fasnachu.

3.15 Wrth drafod y cynnig am is-brydles gyda swyddogion o Dîm Eiddo Llywodraeth Cymru, roedd Kancoat hefyd yn ceisio sicrhau cymorth ariannol ychwanegol oddi wrth Dîm Sector Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer prynu'r llinell araenu gan Coilcolor ac ailddechrau ei gweithredu. Dangosir y llinell araenu coiliau ar waith yn Arddangosyn 10.

Arddangosyn 10: Y llinell araenu coiliau ar waith



Llun: Swyddfa Archwilio Cymru

3.16 Yn Ebrill 2012, awgrymodd Kancoat y byddai'n ceisio sicrhau cymorth ariannol oddeutu £3 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod wedi gwneud yn eglur na fyddai cais ffurfiol am y swm hwnnw yn cael ei gymeradwyo, gan fod y risgiau'n rhy ddifrifol a'r rhagolwg o'r 'gost fesul swydd a grëid' yn rhy uchel. Mae Cyfarwyddwr Kancoat yn credu bod y cwmni, ar y dechrau, wedi cael ei annog gan Lywodraeth Cymru i wneud cais am lefel uwch o gyllid tuag at y costau cyfalaf, ac wedi cael ar ddeall nad oedd y gost fesul swydd a'r gwerth am arian yn feini prawf a ystyrid ar y pryd.

## Gwrthodwyd cais ffurfiol Kancoat am £1.8 miliwn o Gyllid Buses Ad-daladwy

3.17 Yn dilyn hynny, cyflwynodd Kancoat gais ffurfiol i Lywodraeth Cymru am £1.8 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy ar 9 Mai 2012. Bwriedid y cyllid a geisiwyd fel cyfraniad tuag at gost cyfalaf y prosiect, sef £6.7 miliwn, ac at greu/diogelu 33 o swyddi. Gwrthodwyd y cais hwn gan Lywodraeth Cymru ar y sail nad oedd yn cynnig gwerth da am arian, gan fod y 'gost fesul swydd a grëid', sef £54,545, yn rhy uchel.

3.18 Yn lle hynny, estynnodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i Kancoat ailgyflwyno ei gais, am £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy. Y ffigur hwn oedd yr uchafswm o ran cyllid y câi'r Panel Buddsoddi ei gymeradwyo ar y pryd, gan y byddai'n ofynnol i Fwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB) gymeradwyo unrhyw geisiadau dros £500,000[6].

## Cymeradwywyd cais diwygiedig Kancoat am £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy

3.19 Tua diwedd Mai 2012 ac yn fuan ar ôl gwrthod y cais ffurfiol cyntaf am £1.8 miliwn o gymorth, cyflwynodd Kancoat gais ffurfiol diwygiedig am £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy, tuag at gost y prosiect. Yn rhan o delerau diwygiedig y cais, byddai Coilcolor yn darparu cyfalaf sector preifat o £2.5 miliwn; disgwylid i Kancoat wneud taliad o £1.3 miliwn i Coilcolor ar unwaith, a byddai'r balans wedyn yn ad-daladwy dros gyfnod o ddwy flynedd.

3.20 Daeth adolygwr diwydrwydd dyladwy ariannol Llywodraeth Cymru, a fu'n archwilio'r cais, i'r casgliad canlynol:
'ac eithrio ynglŷn â Coilcolor Ltd, nid oes gan [Lywodraeth Cymru] unrhyw wybodaeth ariannol am statws y ddau gyfranddaliwr arall, yn ariannol nac fel arall. Ymddengys mai enw busnes o'r Emiraethau Arabaidd Unedig yw Building Products Offshore Fze, ond ni ellir dod o hyd i endid o'r enw hwnnw wrth chwilio ar y rhyngrwyd, ac nid oes gennym CV ar gyfer [Rheolwr Gyfarwyddwr Kancoat].'

6 Fel y nodir ym mharagraff 3.28, codwyd y trothwy ar gyfer cymeradwyaeth gan WIDAB i £1 miliwn yn Ionawr 2013.

3.21 Fodd bynnag, rydym wedi gweld dogfennau a ddarparwyd gan Gyfarwyddwr Kancoat i’r perwyl bod rhagor o fanylion am y ddau fuddsoddwr preifat ar gael ar y pryd, nag a roddwyd ar gael  t ddibenion yr adolygiad diwydrwydd dyladwy. Mae’r Cyfarwyddwr o’r farn bod y Rheolwr Datblygu Busnes a oedd yn goruchwylio’r cais yn gwybod am gefndir a phrofiad y buddsoddwyr hyn.

3.22 Roedd gan yr adolygwr diwydrwydd dyladwy ariannol bryderon ynghylch amcanestyniadau ariannol Kancoat, fel y’u nodwyd yn ei gynllun busnes. O’r flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2018 ymlaen, rhagwelai’r cynllun y byddai gynnydd o £500,000 yn y trosiant oherwydd y gallu i brosesu alwminiwm ar y safle o 2018 ymlaen. Fodd bynnag, wrth adolygu’r dadansoddiad o’r cynnydd hwn yn y gwerthiant misol alwminiwm prosesedig, cafwyd nad oedd y £500,000 o incwm ychwanegol yn caniatáu ar gyfer unrhyw gynnydd yng nghostau deunyddiau crai. Yn sgil hyn, roedd gan yr adolygwr amheuon cryf ynghylch yr amcanestyniad o gynnydd yn yr elw gros, o 15 i 31 y cant.

3.23 Dywedodd Rheolwr Datblygu Busnes Llywodraeth Cymru a oedd yn gyfrifol am gynorthwyo’r prosiect hwn, y byddai disgwyl i’r cwsmeriaid ddarparu eu deunyddiau crai alwminiwm eu hunain ar gyfer eu prosesu, a bod hynny’n ateb y sylw a wnaed yn arfarniad yr adolygwr diwydrwydd dyladwy.

3.24 Ar 5 Tachwedd 2012, anfonodd Llywodraeth Cymru lythyr cynnig at Kancoat yn cymeradwyo ei gais am £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy, ond ar sail trefniant anad-daladwy, gan fod perchnogion Kancoat wedi cyfleu’n eglur na fyddent yn gallu derbyn cynnig o gyllid ad-daladwy. Nid oedd trefniant o’r fath yn anghyffredin ar y pryd oherwydd bod y rhan fwyaf o’r Cyllid Busnes Ad-daladwy a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod hwnnw, fel yr esboniwyd ym mharagraff 1.10, yn anad-daladwy mewn gwirionedd.

3.25 Dywedodd Cyfarwyddwr Kancoat wrthym ei fod wedi dechrau teimlo’n anniddig ynglŷn â’r modd yr oedd Llywodraeth Cymru yn  ymdrin â chais Kancoat am gymorth ariannol, a’r hyn a ystyriai oedd yn negeseuon anghyson ynglŷn â’r cymorth y gellid ei ddarparu i’r cwmni. Gwnaeth gŵyn ynghylch y sefyllfa, ac yn ei farn ef, hynny a arweiniodd at gyfres o drafodaethau pellach ac ystyriaeth o’r cais ffurfiol dilynol am Gyllid Busnes Ad-daladwy. Dywed swyddogion Llywodraeth Cymru fod y trafodaethau pellach ac ystyriaeth o’r cais dilynol am Gyllid Busnes Ad-daladwy wedi digwydd oherwydd newid yng nghynllun busnes Kancoat, a ystyrir nesaf.

## Yn ddiweddarach, cynyddodd Llywodraeth Cymru y Cyllid Busnes Ad-daladwy a gymeradwywyd i £778,000

3.26 Rhwng Hydref 2012 am is Ionawr 2013, digwyddodd gwelliant yn amodau'r farchnad o safbwynt Kancoat. Hysbysodd Kancoat y Rheolwr Datblygu Busnes perthnasol yn Llywodraeth Cymru fod prif gyflenwr alwminiwm araenedig wedi ad-leoli i Ewrop, a bod darpar gwsmeriaid newydd yn cysylltu â Kancoat fel cyflenwr ar gyfer eu stoc caniau, tua 12 mis yn gynharach na'r disgwyl. Roedd y senario hon mewn gwrthgyferbyniad â chynllun busnes blaenorol Kancoat, a oedd yn pennu'r bwriad i ddibynnu'n gyfan gwbl ar refeniw oddi wrth un cwsmer yn unig, sef Coilcolor, yn ystod y flwyddyn gyntaf o fasnachu.

3.27 Yn ychwanegol at yr uchod, oherwydd amgylchiadau, rhwystrwyd Coilcolor rhag adleoli ei fusnes i Abertawe, fel y cynlluniwyd yn wreiddiol.

3.28 Oherwydd bod Kancoat yn symud i farchnad newydd ac oherwydd anallu Coilcolor i adleoli i Waunarlwydd, rhagwelid y byddai lleihad yn swm y cyllid yr oedd Coilcolor yn barod i'w ddarparu i Kancoat ar gyfer cwblhau pryniant y llinell araenu. Felly, er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid newydd a gallu gweithredu'r llinell yn gynt nag y disgwylid yn wreiddiol, cynyddodd Kancoat ei gais am Gyllid Busnes Ad-daladwy o £500,000 i £990,000. Roedd hyn yn cyd-ddigwydd â chodi'r trothwy ar gyfer cymeradwyo ceisiadau am Gyllid Busnes Ad-daladwy gan WIDAB o £500,000 i £1 miliwn, ac felly cymeradwyaeth gan y Panel Buddsoddi yn unig oedd ei hangen ar gyfer cais diwygiedig Kancoat, yn hytrach nag ystyriaeth gan WIDAB.

3.29 Cafodd adolygiad diwydrwydd dyladwy ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cais blaenorol hefyd ei ddiweddaru i adlewyrchu'r amgylchiadau newydd. Y canlynol yw casgliadau'r adolygiad hwnnw, dyddiedig 21 Chwefror 2013:
'Mae'r cynllun busnes yn ymddangos yn wan ac anghyson. Mae'r risgiau cynhenid, sydd ynghlwm wrth Kancoat fel cwmni newydd, yn parhau. Mae disodli Grŵp Coilcolor, a cholli eu cyfranogiad a'u gwarant yn peri, i bob pwrpas, nad oes dim i liniaru'r risgiau a nodwyd. Golyga'r cynnig fod LlC, fel landlord, yn wynebu risg ychwanegol sylweddol. Nodwyd yn yr asesiad cychwynnol fod risg uchel yn gysylltiedig â'r prosiect hwn. Mae'r cynnig diwygiedig a'r datblygiadau sydd ynglŷn â hynny wedi cynyddu lefel y risg yn hytrach na'i lliniaru'.

3.30 Ystyriodd y Panel Buddsoddi y cais diwygiedig am £990,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy ar 12 Mawrth 2013. Ar sail cynnig diweddaraf Kancoat i greu 31 o swyddi a diogelu un swydd, nododd y Panel mai £788,400 oedd uchafswm y gyllid y gellid ei ddyfarnu[7].

7 Roedd y £778,400 o gyllid yn creu cost uwch fesul swydd na'r hyn a nodwyd yng nghanllawiau gwerth am arian Llywodraeth Cymru.

3.31 Ar y pryd, roedd swyddogion o Dîm Eiddo Llywodraeth Cymru'n dal i negodi telerau'r brydles ag Alcoa. Roedd aelodau'r Panel Buddsoddi felly'n pryderu ynglŷn â'r rhwymedigaeth bosibl o £4.8 miliwn i Lywodraeth Cymru am daliadau prydles dros gyfnod o 16 mlynedd, pe bai Kancoat, a oedd yn fenter risg-uchel, yn methu a phe na bai unrhyw gwmni arall yn barod i gymryd is-brydles ar y safle. Gan hynny, argymhelliad y Panel oedd gwrthod y cais newydd, ond y gallai'r cynnig blaenorol o £500,000 parhau i fod ar gael i Kancoat.

3.32 Cyfarfu'r Panel Buddsoddi drachefn wythnos yn ddiweddarach ar 19 Mawrth 2013 er mwyn ystyried y cais Kancoat eto, gan roi sylw penodol i'r risgiau neilltuol yn gysylltiedig ag ymrwymo i brydles 16 mlynedd o hyd ag Alcoa. Cytunodd y Panel i argymell i'r Gweinidog y dylid cynnig '£788,400 o gyllid busnes anad-daladwy a chaniatáu i'r Tîm Arwain Eiddo wneud penderfyniad masnachol ar yr agwedd ynglŷn ag eiddo'.[8]

3.33 Cymeradwyodd y Gweinidog gais Kancoat am Gyllid Busnes Ad-daladwy, nad oedd yn rhaid ei ad-dalu oherwydd 'amgylchiadau eithriadol', a oedd yn cymryd i ystyriaeth gyfyngiad Alcoa ar y defnydd y safle tan Ionawr 2018 (gweler paragraff 2.5) a'r ffaith mai busnes newydd oedd Kancoat.

3.34 Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddau randaliad o Gyllid Busnes Ad-daladwy (£500,000 a £200,000) sef cyfanswm o £0.7 miliwn i Kancoat ar 1 Awst a 27 Tachwedd 2013 (gweler paragraffau 3.12 i 3.34). Defnyddiodd Kancoat y rhandaliad cyntaf o £500,000, ynghyd ag £1.2 miliwn ar ffurf benthyciad oddi wrth Coilcolor, i brynu'r llinell araenu coiliau oddi wrth Coilcolor am £2.5 miliwn; bu'n rhaid defnyddio ffynonellau preifat ar sail fasnachol i dalu'r gweddill o £0.8 miliwn (gweler yr adran nesaf). Talwyd yr ail randaliad o £200,000 wedi i swyddogion Llywodraeth Cymru ymweld â'r safle ac asesu bod telerau'r llythyr cynnig wedi eu bodloni. Fodd bynnag, ni ryddhawyd y balans o £88,400 gan Lywodraeth Cymru gan fod Kancoat, yn y cyfamser, wedi gwneud cais am fuddsoddiad pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ystyrir hyn yn adran nesaf yr adroddiad.

## Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyciad masnachol o £0.8 miliwn

3.35 Yn sgil yr amgylchiadau newydd a nodwyd uchod, diwygiwyd y dull o ariannu pryniant y llinell. Roedd Coilcolor yn gofyn am daliad dechreuol o £1.3 miliwn gan Kancoat, a byddai'r balans gweddilliol o £1.2 miliwn yn cael ei ad-dalu dros gyfod o ddwy flynedd. Ar gyfer y taliad dechreuol o £1.3 miliwn byddid yn defnyddio'r £500,000 o Gyllid Busnes Ad-daladwy ynghyd â gofyniad benthyg masnachol o £800,000. Dangosir y newidiadau yn y gofynion ariannu yn Arddangosyn 11.

8 Awgrymodd y Panel hefyd na ddylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r brydles ag Alcoa onid oedd y cytundeb prydles yn cynnwys cymal ymeithrio ar ôl dwy flynedd, er mwyn helpu i reoli'r ansicrwydd yn gysylltiedig â llwyddiant masnachol Kancoat yn y dyfodol, fel y nodir ym mharagraffau 3.5 a 3.6.

Arddangosyn 11: Newidiadau i'r gofynion ariannu ar gyfer prynu'r llinell

| Manylion | Y gofyniad cyntaf, £ | Yr ail ofyniad, £ | Y trydydd gofyniad, £ |
|---|---|---|---|
| Coilcolor | 2,500,000 | 1,200,000 | 1,200,000 |
| Benthyciad Masnachol (rhoddwr benthyg masnachol) | 0 | 800,000 | 0 |
| Benthyciad Masnachol (Llywodraeth Cymru) | 0 | 0 | 800,000 |
| Cyllid Busnes Ad-daladwy | 0 | 500,000 | 500,000 |
| Cyfanswm | 2,500,000 | 2,500,000 | 2,500,000 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.36 Roedd banc masnachol wedi cynnig cyllid masnachol ar ffurf benthyciad diogel o £800,000 dros bum mlynedd i Kancoat. Roedd y cynnig hwn yn amodol ar gael Llywodraeth Cymru i ymrwymo i gytundeb 'camu i mewn', a fyddai'n rhwymo Llywodraeth Cymru i warantu'r benthyciad ac i fod yn gyfrifol yn uniongyrchol am unrhyw ddyled a oedd yn weddill o'r benthyciad, pe bai Kancoat yn methu talu.

3.37 Er mwyn parhau i gefnogi'r prosiect a chydymffurfio yr un pryd â'i chyngor cyfreithiol mewnol ynghylch gwarantu, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiwn amgen o roi £800,000 ei hunan ar fenthyg i Kancoat ar sail fasnachol.

3.38 O safbwynt swyddogion Llywodraeth Cymru a fu'n arfarnu'r benthyciad arfaethedig hwn i Kancoat, roedd gwerth y llinell araenu fel sicrwydd yn ffactor allweddol. Gwyddent fod cwmni trydydd-parti, a fu'n marchnata'r llinell yn ystod Tachwedd 2011 ar ran Coilcolor, wedi priodoli gwerth oddeutu £3 miliwn i'r llinell araenu metel ar gyfer ei hailwerthu fel ased gweithredol. Roedd un o gystadleuwyr Alcoa hefyd wedi mynegi diddordeb mewn prynu'r llinell am £3.74 miliwn ar y pryd, ond ni chafwyd unrhyw gynnig pendant o'r swm hwn mewn gwirionedd.

3.39 Gan hynny, argymhellodd swyddogion Llywodraeth Cymru naill ai y dylid negodi telerau sicrwydd a fyddai'n caniatáu gwerthu'r llinell gynhyrchu araenu 'in situ' fel ased gweithredol (yn hytrach na'i datgymalu neu ei sgrapio), neu y dylid ceisio sicrwydd neu warant o fath arall gan Kancoat. Roedd y swyddog diwydrwydd dyladwy ariannol hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefnu prisiad annibynnol o'r llinell araenu er mwyn sicrhau bod ffigurau'r prisiad blaenorol a gafodd Coilcolor yn parhau'n ddilys.

3.40 Fodd bynnag, ni chafwyd prisiad arall o'r ased, a phenderfynodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y prisiad o rhwng £1.25 miliwn a £5 miliwn a gafodd Coilcolor ym Mawrth 2011 yn parhau'n ddigon cyfredol i ddibynnu arno, i ategu prynu'r llinell am £2.5 miliwn a chynnig digon o sicrwydd i Lywodraeth Cymru rhag unrhyw golledion posibl. Byddai'r senario orau, sef ailwerthu'r llinell 'in situ' am £5 miliwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i adennill ei holl gyfraniadau i Kancoat i'w gynorthwyo i gaffael y llinell. Ar y llaw arall, byddai'r senario waethaf, sef gwaredu'r llinell fesul tamaid am £1.25 miliwn yn gadael Llywodraeth Cymru gyda cholled anadferadwy bosibl o tuag £1.5 miliwn (yn Awst 2013).

3.41 Gan hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru fenthyciad masnachol o £800,000 i Kancoat, a sicrhaodd ei buddsoddiad yn y llinell araenu drwy gyfrwng y 'Weithred Blaenoriaeth' a ddangosir yn Arddangosyn 12.

Arddangosyn 12: Gweithred blaenoriaeth dros asedau Kancoat

| Blaenoriaeth | Dros |
|---|---|
| 1 Gweinidogion Cymru | Yr £800,000 cyntaf plws llog a thaliadau |
| 2 Alcoa Manufacturing GB Ltd | Y £200,000 nesaf plws llog a thaliadau, a oedd yn gysylltiedig ag ôl-ddyledion Coilcolor ar y llinell |
| 3 Gweinidogion Cymru | Blaenoriaeth digyfyngiad ar symiau dilynol |
| 4 Alcoa Ltd | Blaenoriaeth digyfyngiad ar symiau dilynol |
| 5 Coilcolor Ltd | Blaenoriaeth digyfyngiad ar symiau dilynol |


Sylwer

Er mwyn ariannu pryniant y llinell araenu, roedd Coilcolor wedi sicrhau cyllid oddi wrth fanc masnachol. Roedd y cyllid hwnnw gan y banc wedi'i ddiogelu ar amryw o asedau, gan gynnwys y llinell araenu. Methodd Coilcolor (West) Ltd â gwneud taliadau i'r banc, ac arweiniodd hynny at ôl-ddyledion o £200,000.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

3.42 Derbyniodd Kancoat y cynnig o fenthyciad masnachol o £800,000 ar 1 Awst 2013, a phrynodd y llinell araenu metel oddi wrth Coilcolor am £2.5 miliwn ar 15 Awst 2013, yn unol â'r crynodeb yn Arddangosyn 13.

Arddangosyn 13: Cwblhau pryniant y llinell araenu coiliau a dechrau gweithrediadau Kancoat




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.43 Hyd yma, mae Kancoat wedi gwneud saith ad-daliad, sef cyfanswm o £121,923 gyferbyn â'r benthyciad masnachol hwn o £800,000, gan adael balans gweddilliol (sy'n cynnwys y prif swm a dyled llog) o £955,677 yn ddyledus i Lywodraeth Cymru, fel y dangosir yn Arddangosyn 14.

Arddangosyn 14: Taliadau ar fenthyciad masnachol sy'n ddyledus gan Kancoat Ltd i Lywodraeth Cymru

| Blwyddyn ariannol | Taliadau ar fenthyciad masnachol sy'n ddyledus i Llywodraeth Cymru £ | Taliadau a wnaed gan Kancoat £ | Balans cronnus o randaliadau heb eu talu ar y benthyciad £ |
|---|---|---|---|
| 2013-14 (un mis ar ôl derbyn y benthyciad) | 125,720 | 121,923 | 3,797 |
| 2014-15 | 215,520 | – | 219,317 |
| 2015-16 | 215,520 | – | 434,837 |
| 2016-17 | 215,520 | – | 650,357 |
| 2017-18 | 215,520 | – | 865,877 |
| 2018-19 | 89,800 | – | 955,677 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.44 Ar adeg cyflwyno'r benthyciad o £800,000, nid oedd gan Lywodraeth Cymru bolisi na gweithdrefn ffurfiol ar gyfer asesu a chymeradwyo benthyciadau i fusnesau. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod, ers hynny, wedi rhoi sylw i'r mater hwnnw drwy sicrhau:

a bod pob benthyciad masnachol yn cael ei ystyried gan Banel Buddsoddi;

b bod yr Uwch Dîm Rheoli yn cadarnhau unrhyw argymhelliad gan y Panel Buddsoddi ar gyfer benthyciadau masnachol dros £1 miliwn.

c bod Tîm Monitro Canolog yn monitro benthyciadau;

ch bod yn rhaid cynnal arfarniad ar wahân, yn ychwanegol at Ffeil Cyngor y Gweinidog; a

d bod asesiad mwy trylwyr yn cael ei gynnal o allu ymgeiswyr am fenthyciadau i ad-dalu'r benthyciadau hynny.

## Darparodd Llywodraeth Cymru fenthyciad pellach i Kancoat er mwyn cynorthwyo'r cwmni i oresgyn anawsterau gweithredu nas rhagwelwyd

3.45 Yn gynnar yn 2014, ryw bum mis ar ôl cwblhau'r cytundeb i sicrhau'r brydles gyda Llywodraeth Cymru a phrynu'r llinell araenu coiliau oddi wrth Coilcolor, profodd Kancoat anawsterau gweithredu. Arweiniodd yr anawsterau hyn at drafodaethau pellach â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch darparu cymorth ariannol ychwanegol.

3.46 Oherwydd anawsterau na fu modd eu rhagweld â phrif gyflenwr coiliau dur Kancoat yn y DU, ystyriai Kancoat mai ei unig ddewis oedd ceisio dod o hyd i gyflenwyr newydd yn Ffrainc a Korea. Roedd yr amser arwain o ddau fis cyn cyflenwi cynnyrch yn achosi oedi cyn derbyn yr incwm o werthiannau a ragwelwyd yn y cynllun busnes. Ar ben hyn, roedd y ddau gyflenwr tramor yn mynnu cael eu talu ymlaen llaw. Achosodd y ddau ffactor, gyda'i gilydd, broblem llif arian sylweddol i Kancoat. Ceisiodd Kancoat gael cyllid o ffynonellau masnachol eraill, gan gynnwys cais ychwanegol i Gyllid Cymru ac i'r Cynllun Gwarant Cyllid Menter, sef cynllun benthyca gan Lywodraeth y DU ar gyfer cynorthwyo busnesau hyfyw llai eu maint sy'n cael anhawster i sicrhau cyllid, drwy gynnig benthyciadau banc rhwng £1,000 a £1 miliwn – ond ni lwyddodd Kancoat yn hynny o beth.

3.47 Heb fuddsoddiad o £500,000 yn y cwmni ar unwaith, rhagwelai swyddogion Kancoat na fyddai modd i'r cwmni brynu deunyddiau crai i gyflawni ei lyfr archebion, ac y byddai felly'n rhoi'r gorau i fasnachu. Byddai'r 12 o swyddi a grëwyd eisoes yn cael eu colli, ynghyd â'r 20 o swyddi eraill y disgwylid eu creu dros y tair blynedd nesaf. Pe bai Kancoat yn cau, byddai'n golygu hefyd na allai ad-dalu ei fenthyciad i Coilcolor, nac ychwaith y benthyciad masnachol o £800,000 i Lywodraeth Cymru, nac yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau o dan gytundeb yr is-brydles.

3.48 Archwiliwyd a derbyniwyd amcanestyniadau Kancoat o'i refeniw a'i lif arian gan swyddogion Llywodraeth Cymru wrth iddynt ystyried a ddylid darparu benthyciad byrdymor ychwanegol o £500,000 i'r cwmni. Fodd bynnag, roedd yr ail fenthyciad masnachol hwn yn amodol ar i Kancoat wneud taliadau prydlon i Lywodraeth Cymru o dan y brydles. Erbyn Ionawr 2014, roedd Kancoat wedi gwneud saith ad-daliad, sef cyfanswm o £121,923 gyferbyn â'i fenthyciad masnachol cyntaf o £800,000. Fodd bynnag, nid oedd y cwmni wedi gwneud unrhyw daliadau ar gyfer ei is-brydles â Llywodraeth Cymru, ac eithrio cyfraniad o £13,166 tuag at daliadau gwasanaeth ac yswiriant (gweler Arddangosyn 8).

3.49 Cymeradwywyd yr ail fenthyciad gan Lywodraeth Cymru a gwnaed y taliad ar 14 Chwefror 2014, er nad oedd Kancoat eto wedi gwneud unrhyw daliadau pellach gyferbyn â rhwymedigaethau ei brydles[9]. O ystyried sefyllfa fasnachu wan Kancoat

9 Er nad oedd Kancoat wedi bodloni'r amod blaen-dalu, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad yw cyllid canolog yn cydnabod cwmni fel un sydd mewn ôl-ddyled hyd nes bo Llywodraeth Cymru wedi dyroddi tri hysbysiad atgoffa. O ganlyniad, nid oedd Kancoat mewn ôl-ddyled pan roddwyd yr ail fenthyciad.

ar y pryd, ni ddarparwyd lefel gymesur o sicrwydd i Lywodraeth Cymru wrth ddyfarnu'r ail fenthyciad masnachol o £500,000, oherwydd ni chafodd y Weithred Blaenoriaeth flaenorol ei diwygio.

3.50 Ym Mawrth 2014, yng ngoleuni anawsterau llif arian parhaus Kancoat, caniataodd Llywodraeth Cymru hefyd 'seibiant talu' o 90 diwrnod i'r cwmni, ar gyfer y benthyciad masnachol cyntaf a hefyd ar gyfer ei daliadau rhent o dan yr is-brydles

## Er gwaethaf y cymorth ariannol ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, aeth Kancoat i ddwylo gweinyddwyr yn ystod Medi 2014

3.51 Ym mharagraff 3.17, nodir nad oedd Llywodraeth Cymru'n barod i ystyried cais cychwynnol gan Kancoat am Gyllid Busnes Ad-daladwy o £1.8 miliwn, gan y byddai hynny wedi achosi risg ormodol. Fodd bynnag, dros oes y prosiect, roedd cyfanswm yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru tuag at gost menter busnes Kancoat oddeutu £3.4 miliwn. O'r benthyciadau masnachol o £1.3 miliwn sy'n ad-daladwy, dim ond £135,000 y mae Kancoat wedi ei dalu i Lywodraeth Cymru. Dywedodd cynrychiolwyr Coilcolor wrthym mai'r swm gwirioneddol a oedd yn ddyledus i Coilcolor Ltd pan aeth Kancoat i ddwylo derbynwyr oedd £1,409,731.

3.52 Er iddo dderbyn yr ail fenthyciad masnachol o £0.5 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn Chwefror 2014, ac er gwaethaf rhoi seibiant talu o 90 diwrnod iddo ym Mawrth 2014, nid allai Kancoat weithredu fel busnes hyfyw ac erbyn Gorffennaf 2014, roedd ei berchnogion yn ystyried gwerthu'r busnes.

3.53 Ni chafwyd canlyniad boddhaol yn sgil trafodaethau â chonsortiwm yn Rwsia, a oedd wedi mynegi diddordeb mewn caffael oddeutu 70 y cant o Kancoat am rhwng £1.5 miliwn a £3 miliwn, gyda'r posibilrwydd o brynu safle Waunarlwydd oddi wrth Alcoa. Ymddiswyddodd unig Gyfarwyddwr Kancoat ar 24 Gorffennaf 2014 ac aeth y cwmni i ddwylo gweinyddwyr ar 15 Medi 2014.


3.54 Yn Ionawr 2015, cyfeiriwyd Kancoat at Cyllid Cymru gan swyddogion Llywodraeth Cymru, er mwyn canfod a ellid darparu unrhyw gymorth i'r cwmni. Er bod Cyllid Cymru wedi cyflwyno Kancoat i dair gwahanol set o ddarpar-fuddsoddwyr, ni phenderfynodd yr un ohonynt fuddsoddi.

3.55 Ar yr adeg y cyhoeddir yr adroddiad hwn, nid yw gweinyddwr Kancoat wedi derbyn unrhyw gynigion am y llinell araenu dur. Mae Alcoa yn ddiweddar wedi rhoi'r cyfan o'i Barc Diwydiannol Waunarlwydd ar werth, a dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym fod Alcoa wedi cael mynegiant o ddiddordeb yn y peiriannau ac yn y safle cyfan gan gwmni adnabyddus ac uchel ei barch, sydd ag asedau sylweddol yn y diwydiant dur.

## Mae Llywodraeth Cymru'n wynebu colled anadferadwy bosibl o £1.5 miliwn, yn sgil rhoi cymorth ariannol i Kancoat, ac roedd y gost wirioneddol 'fesul swydd a grëwyd' bron dair gwaith yn uwch nag a ddisgwylid yn wreiddiol

3.56 Ystyriai swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai cefnogi Kancoat yn cyfrannu at nodau'r Rhaglen Lywodraethu o greu twf a swyddi cynaliadwy. Roedd disgwyl i'r prosiect greu oddeutu 32 o swyddi newydd dros gyfnod o dair blynedd, a diogelu un swydd arall, mewn sector a oedd yn bwysig i'r economi. Yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd, oherwydd rhoi Kancoat yn nwylo gweinyddwyr, oedd creu 12 o swyddi drwy'r prosiect ar gost wirioneddol 'fesul swydd a grëwyd' a oedd bron dair gwaith yn uwch na disgwyliad gwreiddiol Llywodraeth Cymru, fel y dangosir yn Arddangosyn 15.

Arddangosyn 15: Y gost ddisgwyliedig fesul swydd o gymharu â'r gost wirioneddol fesul swydd a grëir/diogelir




Ffynhonnell: dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

3.57 Pe bai cais Kancoat yn dod i law heddiw, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r cais hwnnw'n llwyddo, o ystyried y cynnydd yn nifer y ceisiadau a'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael.

3.58 Fel cyfanswm, darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol gwerth £3.4 miliwn i Kancoat. Roedd £700,000 o'r swm hwn ar ffurf Cyllid Busnes Ad-daladwy nad oedd yn rhaid ei ad-dalu mewn gwirionedd. Pan aeth Kancoat i ddwylo'r gweinyddwyr, yr oedd wedi ad-dalu £121,923 o'i fenthyciadau i Lywodraeth Cymru, a daeth y £2.6 miliwn o gymorth ariannol a oedd yn weddill yn ad-daladwy ar unwaith.

3.59 Ar y sail y gellir gwaredu'r llinell araenu am bris sy'n agos at ben isaf y prisiad marchnad a gafodd Coilcolor ym Mawrth 2011, sef £1.25 miliwn (hy, gwaredu fesul tamaid), bydd yr £800,000 cyntaf o unrhyw dderbyniadau gwerthiant yn daladwy i Lywodraeth Cymru a'r £200,000 nesaf yn daladwy i Alcoa. Ar hyn o bryd felly, amcangyfrifir y bydd y golled uchaf bosibl i'r pwrs cyhoeddus oddeutu £1.5 miliwn, fel y dangosir yn Arddangosyn 16. Rhaid pwysleisio mai amcangyfrif o'r golled yn unig y gellir ei ddarparu yma, ac y gall y ffigur terfynol fod yn dra gwahanol, gan y bydd yn dibynnu ar ffactorau allweddol megis pris dur sgrap, a'r pris y bydd prynwr posibl ei dalu am y safle, os gellir ei werthu neu ei ail-osod.

Arddangosyn 16: Uchafswm y golled anadferadwy bosibl i Lywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru: | |
| • Benthyciad masnachol #1 | 800,000 |
| • Benthyciad masnachol #2 | 500,000 |
| • Cyllid Busnes Ad-daladwy nad oedd angen ei ad-dalu #1 | 500,000 |
| • Cyllid Busnes Ad-daladwy nad oedd angen ei ad-dalu #2 | 200,000 |
| • Cymorth eiddo (ymrwymiad i brydles gyda chymal torri pum-mlynedd) | 1,400,000 |
| **Cyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru** | **3,400,000** |
| Llai: Ad-daliadau a wnaed gan Kancoat ar gyfer benthyciad masnachol | (121,923) |
| Llai: Cyllid Busnes Ad-daladwy nad oedd angen ei ad-dalu | (700,000) |
| Llai: Yswiriant a thaliadau gwasanaeth a dalwyd | (13,166) |
| **Balans sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru** | **2,564,911** |
| Llai: Elw posibl o waredu'r llinell araenu coiliau fesul tamaid | (1,250,000) |
| | 1,314,911 |
| Plws: Rhwymedigaethau 'Gweithred Blaenoriaeth' sy'n ddyledus i Alcoa (gweler Arddangosyn 12) | 200,000 |
| **Uchafswm y golled anadferadwy bosibl i Lywodraeth Cymru** | **1,514,911** |

Sylwer

Ni fydd y cyfanswm Cymorth Eiddo a nodir yn gymwys oni fydd busnes Kancoat yn methu ac y terfynir yr is-brydles ar ddiwrnod cyntaf y tymor. Er bod Kancoat wedi bod yn nwylo derbynwyr ers Medi 2014, mae'r busnes yn parhau i fodoli fel endid cyfreithiol ac yn parhau'n is-denant y fangre. O ganlyniad, mae'r busnes, ac nid Llywodraeth Cymru, yn parhau dan rwymedigaeth i dalu ardrethi busnes i'r Awdurdod Ardrethu. Mae'r cyfnod yn nwylo'r gweinyddwyr wedi ei estyn tan Fedi 2016, ac os rhagdybir mai'r adeg honno y terfynir is-brydles Kancoat, bydd atebolrwydd Llywodraeth Cymru am gostau o'r fath yn parhau am 23 o fisoedd (hy, tan ddyddiad torri Llywodraeth Cymru yn Awst 2018).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

## Gwersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl rhoi cymorth ariannol i Kancoat

3.60 Mae Pennaeth Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod achos Kancoat yn arbennig o gymhleth, ac wedi comisiynu ymarfer ‘gwersi a ddysgwyd’ gan y Pennaeth Monitro, Diwydrwydd Dyladwy Ariannol a Chyngor Buddsoddi.

3.61 Roedd yr adolygiad o’r gwersi a ddysgwyd yn cydnabod y dylai’r dull o graffu a ddefnyddir ar gyfer ceisiadau Cyllid Busnes gael ei ddefnyddio hefyd mewn perthynas â mathau eraill o ariannu, megis benthyciadau masnachol. Ym Mehefin 2014, cyflwynwyd proses Gymeradwyo Ariannol ddiwygiedig i’r Tîm Arweiniad Corfforaethol, a oedd yn gwneud y broses adrannol ar gyfer Cymeradwyo Ariannol yn ofynnol mewn perthynas â benthyciadau masnachol yn y dyfodol.

3.62 O ganlyniad i’r adolygiad hwnnw, ac fel rhan o’r broses o wella’r adran yn barhaus, esboniodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod nifer o newidiadau allweddol i’r gweithdrefnau wedi eu cyflawni:

- a mae ystyried benthyciadau masnachol bellach yn rhan o’r broses Gymeradwyo Ariannol, a rhaid cael argymhellion Panel Buddsoddi cyn gofyn am eu cymeradwyo gan y Gweinidog;
- b rhaid i’r Uwch Dîm Rheoli gadarnhau unrhyw argymhelliad a wneir gan y Panel Buddsoddi ar gyfer benthyciadau masnachol o fwy na £1 miliwn;
- c yn rhan o’r broses Gymeradwyo Ariannol, rhaid cynnal arfarniad arunigol o bob prosiect sy’n cynnwys benthyciadau masnachol;
- ch mae’r gwaith o fonitro benthyciadau wedi ei symud i’r Tîm Monitro Canolog, a phrotocol adrannol wedi ei gytuno a’i sefydlu er mwyn eglurder ynghylch meysydd cyfrifoldeb;
- d asesir ymgeiswyr yn fwy trwyadl o ran eu gallu i ad-dalu, trwy gyflawni Diwydrwydd Dyladwy Ariannol priodol;
- dd mabwysiadwyd dull safonedig o asesu risg er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gwahanol gynlluniau ariannu;
- e pan fo ymyriadau lluosog o dan ystyriaeth (h.y. cymorth ariannol yn ogystal ag atebion eiddo), ystyrir hwy bellach gan gorff unigol (sef Panel Buddsoddi) gyda chyngor priodol gan y Tîm Arwain Eiddo;
- f mabwysiadwyd dogfen arfarnu safonedig sy’n sicrhau ymagwedd gyson at arfarnu prosiectau, ar draws y gwahanol gynlluniau ariannu;

ff mae’r ymgais i gynyddu a gwella’r defnydd o’r System Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) yn darparu gwell gwybodaeth reoli; ac

g mae’r gwaith o anfon llythyrau cynnig wedi ei ganoli o fewn un tîm, ac o ganlyniad mae’r cwsmeriaid yn cael gwell gwasanaeth ac amodau’r dyfarniadau yn fwy cyson a chadarn.

# Atodiadau

# Atodiad 1 - Ein hymagwedd a’n dulliau archwilio

## Cwmpas

Cynhaliwyd adolygiad archwilio gennym o’r cymorth ariannol a dderbyniodd Kancoat Ltd oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac ystyriwyd hyn yng nghyd-destun ehangach cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau yng Nghymru sy’n gweithredu o fewn y sector ‘deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch’.

Nod ein harchwiliad oedd canfod y ffeithiau sylfaenol yn gysylltiedig â phryderon a godwyd mewn gohebiaeth â’r Archwilydd Cyffredinol. Nid ydym wedi ceisio ffurfio casgliadau arfarnol o’n gwaith, na llunio argymhellion penodol; yn hytrach, mae’r adroddiad hwn yn nodi’r ffeithiau i’w hystyried gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Dulliau

Wrth gynnal yr adolygiad hwn, casglwyd tystiolaeth ddogfennol oddi wrth Lywodraeth Cymru a gweinyddwr Kancoat rhwng Tachwedd 2015 a Chwefror 2016.

Yn benodol, buom yn archwilio dogfennau a gedwir gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru. Nodai’r rhain gwmpas a chanfyddiadau adolygiad Llywodraeth Cymru o’r graddau yr oedd yn cydymffurfio â’i pholisïau a’i gweithdrefnau mewnol mewn perthynas â’r is-brydles, y Cyllid Busnes Ad-daladwy a’r ddau fenthyciad masnachol a roddwyd i Kancoat.

Buom yn cyfweld â swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru, a hefyd yn ymweld â safle Waunarlwydd, yng nghwmni gweinyddwr Kancoat.

Cyn cyhoeddi ein hadroddiad, cytunwyd ar ei gywirdeb ffeithiol â Llywodraeth Cymru a thrydydd partïon a enwir.

# Atodiad 2 - Llinell amser o'r prif ddigwyddiadau

## Llinell amser

### 2007

#### Ebrill

**Alcoa**

Cynhyrchu'n dod i ben ar y safle oherwydd ymarferiad ailstrwythuro cyffredinol gan Grŵp Alcoa.

### 2008

#### Rhagfyr

**Falcon Steel**

Llywodraeth Cymru yn cynnig grant o £350,000 i Falcon Steel tuag at sefydlu cyfleuster araenu lliw yn Waunarlwydd, a fyddai'n creu 37 o swyddi.

### 2009

#### Ionawr

Falcon Steel yn derbyn grant o £250,000 gan Lywodraeth Cymru, ar ôl cymryd drosodd y llinell araenu metel ac asedau cysylltiedig.

#### Gorffennaf

Falcon Steel yn cael grant pellach o £250,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer offer a pheiriannau ychwanegol er mwyn uwchraddio'r cyfleuster a thrwy hynny greu 14 o swyddi newydd.

### 2011

#### Ionawr

Falcon Steel yn penderfynu ymddatod yn Ionawr 2011 ac yn cael ei ddiddymu yn Hydref 2012 oherwydd y pwysau ar brisiau gan gystadleuwyr a chostau rhedeg uchel.

#### Mehefin

Falcon Steel yn gadael safle Waunarlwydd.

#### Mehefin

**Coilcolor West**

Coilcolor yn cymryd drosodd weithredu'r cyfleuster araenu oddi ar Falcon Steel, drwy gyfrwng ei is-gwmni Coilcolor West (a gorfforwyd yn 2010).

### 2012

#### Mawrth

**Kancoat**

Kancoat yn ymgorffori fel cwmni cyfyngedig preifat gyda dyraniad cyfalaf cyfrannau dechreuol o un cyfranddaliad cyffredin, a ddyrannwyd i Coilcolor. Roedd unig Gyfarwyddwr y cwmni yn Gyfarwyddwr Coilcolor rhwng 1 Mai 2011 a 31 Mawrth 2012.

#### Ebrill

Bwriad gwreiddiol Kancoat yw gofyn am £3 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru.

#### Mai

Cafodd cais ffurfiol Kancoat am £1.8 miliwn o Gyllid Busnes Ad-daladwy (CBA) ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.

Cymeradwywyd cais diwygiedig Kancoat am £500,000 o CBA gan Lywodraeth Cymru.

#### Mehefin

**Coilcolor West**

Coilcolor West yn gadael safle Waunarlwydd.

#### Gorffennaf

Coilcolor West yn rhoi'r gorau i fasnachu; ei ddyled prydles sylweddol wedi ei throsglwyddo i'r rhiant-gwmni, Coilcolor.

● Alcoa ● Falcon Steel ● Coilcolor West ● Kancoat

## 2013

### Ionawr

**Kancoat**

Kancoat yn cyflwyno cais diwygiedig i Lywodraeth Cymru, am CBA o £990,000.

### Mawrth

Mae Panel Buddsoddi  Llywodraeth Cymru yn gwrthod y cais am £990,000.

Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn cymeradwyo CBA o £778,000.

### Awst

Llywodraeth Cymru yn cytuno gydag Alcoa ar brydles 16-mlynedd ar safle Waunarlwydd; Kancoat yn is-brydlesu'r safle oddi ar Lywodraeth Cymru.

Kancoat yn cael y rhandaliad cyntaf o £500,000 o CBA yn ogystal â benthyciad masnachol o £800,000 gan Lywodraeth Cymru tuag at gaffael y llinell araenu coiliau.

Kancoat yn prynu'r llinell araenu coiliau oddi ar Coilcolor am £2.5 miliwn.

### Tachwedd

Kancoat yn cael yr ail randaliad o £200,000 o CBA.

## 2014

### Chwefror

Mae Kancoat yn derbyn benthyciad masnachol ychwanegol o £500,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'i lif arian.

### Medi

Kancoat yn mynd i ddwylo derbynwyr ac yn gadael safle Waunarlwydd.

Alcoa · Falcon Steel · Coilcolor West · Kancoat

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru